




Llywodraeth Cymru
Welsh Government



**Fersiwn Hawdd ei Ddeall –
Cymru Iachach: ein cynllun
Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Gwybodaeth am y daflen


Ni yw Llywodraeth Cymru.

Mae'r daflen hon am iechyd a gofal cymdeithasol i bobl Cymru.



Gall gofal iechyd olygu pethau fel

- gweld doctor neu nyrs
- mynd i'r feddygfa neu'r ysbyty
- gofalu ar ôl eich iechyd eich hun



Gall gofal cymdeithasol olygu pethau fel

- helpu person i fyw yn ei gartref
- gofal i blant sydd angen gofal
- cartrefi arbennig i bobl sydd angen llawer o ofal a chymorth

Mae llawer o bethau yn newid yng Nghymru



Er enghraifft, mae mwy o bobl yn byw yn hirach ac angen mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol nag o'r blaen.

Ac mae llai o arian ar gael i'w wario ar y pethau hyn.

Ond mae pobl Cymru angen gofal a chymorth o ansawdd da.

Rhaid i ni wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd.

Beth rydyn ni eisiau



Mae Llywodraeth Cymru am i bawb gael bywydau hir, iach a hapus.

Fe wnaethom ni ofyn i grŵp o arbenigwyr roi cyngor i ni am sut i wella ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Dywedwyd bod angen i ni wneud rhai newidiadau, felly rydyn ni'n dilyn eu cyngor nhw.

Pa fath o newidiadau?



- Byddwn yn ei gwneud yn hawdd i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd, a gyda gwasanaethau eraill fel addysg a thai.
- Byddwn yn helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu mwy o ofal yn y cartref, neu mor agos i'r cartref â phosib.
- Byddwn yn symud rhai gwasanaethau o'r ysbyty ac yn helpu pobl i aros yn iach drwy ofalu ar ôl eu hunain yn well.



- Pan fydd pobl angen help, bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gwrando arnyn nhw a'u hanwyliaid i weld beth sydd orau iddyn nhw, ac yna'n gwneud eu gorau i sicrhau bod hynny'n digwydd.
- Byddwn yn gwneud newidiadau er mwyn helpu i wneud yn siŵr bod digon o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar gael, eu bod nhw'n mwynhau eu gwaith ac yn ei wneud yn dda.

Sut byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod y newidiadau yn digwydd, a chael digon o arian yn y dyfodol



Byddwn yn rhoi mwy o help ac arian ychwanegol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn iddyn nhw wneud y newidiadau rydyn ni am eu gweld.

Ond dydyn ni ddim bob amser yn cael digon o arian i wneud y newidiadau rydyn ni am eu gweld.

Er mwyn ein helpu i weld sut y gallwn fforddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, byddwn yn gofyn am gyngor gan bobl sy'n gwybod llawer am y pethau hyn.



Byddwn hefyd yn ei gwneud yn haws i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddweud wrthym am eu gwaith.

A dweud yn glir rydyn ni am ei weld, a'u helpu nhw i wneud y pethau hynny.

